



PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF CABINET

Cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd Dydd Mawrth, 17 Gorffennaf 2018 am 2.30 pm ym Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypanyd CF40 2XX.

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol - Cabinet Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cyngorydd A Morgan (Cadeirydd)

Y Cyngorydd M Webber Y Cyngorydd R Bevan
Y Cyngorydd A Crimmings Y Cyngorydd G Hopkins
Y Cyngorydd J Rosser Y Cyngorydd R Lewis
Y Cyngorydd C Leyshon

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C Bradshaw, Prif Weithredwr
Mr C Jones, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus
Mr C Lee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen
Mr G Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Ms E Thomas, Cyfarwyddwr Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes
Mr R Evans, Pennaeth Materion Adnoddau Dynol
Ms J Bow, Head of Service - Accommodation
Mr M Crumbie, Pennaeth Rhaglen Gyflawni Archwilio Mewnol a Chaffael
Mr P Griffiths, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cyflawni a Gwella
Mr D James, Pennaeth Adfywio a Ffyniant

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol

Y Cyngorydd A Chapman

13 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, gwnaeth y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol A Chapman y datganiad o Fuddiant personol yma mewn perthynas ag eitem 4 ar yr Agenda - Grant Cynnal a Chadw Canol y Dref: "Mae busnes gyda fi yng nghanol tref Treorci".

14 YMDDIHEURIAD

Daeth ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol M Norris.

15 Cofnodion

PENDERFYNODD y Cabinet gymeradwyo cofnodion y cyfarfod, a gynhaliwyd ar 21 Mehefin 2018, fel rhai cywir.

16 ADRODDIAD BLYNYDDOL CYSAG RHCT

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes ei adroddiad gerbron yr Aelodau. Rhoddodd fanylion i'r Aelodau am y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol a rhoddodd drosolwg o waith CYSAG am y flwyddyn flynyddol, yn ôl yr angen statudol.

Rhoddodd yr Aelod o'r Cabinet ar Faterion Addysg a Dysgu Gydol Oes sylw ar yr adroddiad blynyddol a atodwyd fel atodiad B i'r adroddiad a **PHENDERFYNWYD:**

1. Nodi cynnwys Adroddiad Blynyddol 2016-2017

17 Grant Cynnal a Chadw Canol y Dref

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Adfywio, Ffyniant a Thai ei adroddiad gerbron yr Aelodau a oedd yn manylu ar adolygiad o'r Grant Cynnal a Chadw Canol y Dref a gafodd ei dreialu yn Ardaloedd Manwerthu Aberpennar a Thonypandy yn dilyn penderfyniad gan y Cabinet ym mis Medi, 2017.

Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa bod y grant sydd ar gael yn darparu cefnogaeth i fasnachwyr/landlordiaid iddyn nhw wneud gwaith cynnal a chadw i wella blaenolwg allanol eiddo canol y dref, gan gyfrannu at effaith gadarnhaol ar y stryd, a chreu amgylchedd mwy deniadol a bywiog yng nghanol y dref.

Rhoddodd y Pennaeth Materion Adfywio, Ffyniant a Thai wybod i'r Aelodau bod y galw am y cynllun wedi bod yn uchel ymhlith masnachwyr o ganol y ddwy dref, gyda 28 cais pellach yn cael eu prosesu ar hyn o bryd. Oherwydd llwyddiant y cynllun, cynigiodd Pennaeth y Gwasanaeth y dylid dyrannu cyllideb ychwanegol o £36,400 i gefnogi'r cynigion. Parhaodd Pennaeth y Gwasanaeth drwy roi gwybod i'r Aelodau am y cynnig a restrir yn yr adroddiad, gan adeiladu ar ddeilliannau llwyddiannus y cynllun peilot, i gyflwyno'r cynllun i fasnachwyr a pherchnogion annibynnol canol tref yn Ardal Manwerthu Treorci.

Gwnaeth yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu, a Thai sylw cadarnhaol ar yr adolygiad a buddion y grant presennol i ganol trefi Tonypandy ac Aberpennar ar gyfer y masnachwyr a'r cymunedau lleol. Ychwanegodd hefyd y byddai ehangu'r grant i gynnwys Treorci yn ategu'r gwaith sydd ar y gweill i ystyried datblygu Ardal Gwella Busnes (AGB) bosibl yn Nhreorci. Cyfeiriodd Aelod y Cabinet at ei drafodaethau cadarnhaol gyda masnachwyr mewn perthynas â'r grant a chroesawodd ehangu'r cynnig.

Ychwanegodd Arweinydd y Cyngor mai'r bwriad oedd cyflwyno'r grant i holl ganol trefi RhCT ar sail fesul blwyddyn. Siaradodd am y cymorth ychwanegol y mae'r Cyngor wedi'i roi yng nghanol trefi ar draws y Fwrdeistref Sirol mewn perthynas â pharcio ceir a rhyddhad ardrethi. Cymerodd yr Arweinydd y cyfle i holi am Ôl Troed canol tref Treorci, fel y'i rhestrir yn atodiad 3 yr adroddiad. Cadarnhaodd Pennaeth Materion Adfywio, Ffyniant a Thai bod archfarchnad y Co-operative ddim yn gymwys o fewn cynllun Grant Cynnal a Chadw Canol y Dref.

Hefyd, siaradodd y Dirprwy Arweinydd yn gadarnhaol am y grant a'r cynigion yn yr adroddiad, gan ailadrodd y cymorth sy'n cael ei roi i ganol trefi, a nodi

Ilwyddiant achlysuron Nadolig canol trefi a gafodd eu cynnal gan y Cyngor ar draws y Fwrdeistref Sirol a'r buddion i'r masnachwyr a'r gymuned leol.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNODD** yr Aelodau:

1. Nodi'r deilliannau Ilwyddiannus hyd yma ar gyfer Aberpennar a Thonypandy.
2. Cymeradwyo dyrannu cyllideb ychwanegol o £36,400 ar gyfer cynigion sydd wrthi'n cael eu datblygu yn Aberpennar a Thonypandy.
3. Ymestyn cynllun peilot Grant Cynnal a Chadw Canol y Dref i Ardal Manwerthu Treorci gan ddyrannu cyllideb o £30,000 iddo.
4. Cyflwyno'r cynllun grant ar draws yr holl ganol trefi yn amodol ar werthusiad parhaus a chymeradwyaeth y Cabinet yn y dyfodol.

D.S. Gyda chaniatâd y Cadeirydd, siaradodd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol A Chapman am yr eitem.

18 **ADRODDIAD AR GYFLAWNIAD CORFFORAETHOL Y CYNGOR**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth ar faterion Cyflawniad a Gwelliant ei Adroddiad Cyflawniad Corfforaethol drafft y Cyngor gerbron Aelodau'r Cabinet. Roedd yr adroddiad yn cynnwys manylion cynnydd ar gyfer 2017/18 a chynlluniau ar gyfer 2018/19 o ran tair blaenoriaeth strategol y Cyngor. Cafodd yr Aelodau wybod bod yr adroddiad hefyd yn nodi sut mae'r Adroddiad yma'n galluogi'r Cyngor i fodloni ei ofynion adrodd statudol.

Cafodd yr Aelodau eu cyfeirio at Atodiad 1 yr Adroddiad a oedd yn manylu ar yr Adroddiad drafft, a oedd wedi'i strwythuro o amgylch Blaenoriaethau'r Cyngor, sef yr Economi, y Bobl a'r Lle. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod yr Adroddiad yn darparu trosolwg o gynnydd a chynlluniau i Aelodau Etholedig, partneriaid, trigolion, staff a rheoleiddwyr, ynghyd â chynnwys gwybodaeth fanwl pellach.

Cafodd yr Aelodau wybod bod yr Adroddiad drafft hefyd wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Cyllid a Chyflawniad i'w archwilio'n fanwl ymlaen llaw.

Roedd yr Arweinydd wedi diolch i'r swyddogion am yr Adroddiad, gan ddweud ei fod yn adlewyrchu'r Cyngor mewn ffordd gywir a gonest, gan roi sylw i gyflawniad cadarnhaol a meysydd lle y mae angen eu gwella.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNODD** yr Aelodau:

1. Cymeradwyo Adroddiad Cyflawniad drafft y Cyngor (fel y'i atodir yn Atodiad 1 yr Adroddiad) ac argymhell bod y Cyngor llawn yn ei gymeradwyo ar 25 Gorffennaf 2018.

19 ADRODDIAD CYFLAWNIAD AC ADNODDAU'R CYNGOR (CHWARTER 4)

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Cyflawni a Gwella ei Adroddiad gerbron yr Aelodau, sy'n rhoi trosolwg o gyflawniad y Cyngor o ran materion ariannol a gweithredol ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018.

Cafodd Aelodau'r Cabinet wybod fod yr adroddiad yn adrodd cyflawniad ariannol a gweithredol cadarn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben a oedd yn gyson â'r diweddariadau chwarterol yn ystod y flwyddyn.

Cafwyd sylw cadarnhaol gan yr Arweinydd fod y Cyngor wedi cyflawni popeth o dan y gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol, a hynny er gwaethaf gofynion a phwysau cynyddol ar wasanaethau. Roedd hyn wedi golygu bod modd buddsoddi ymhellach yng Nghynllun Cynnal a Chadw'r Gaeaf. Gerbron yr Aelodau, nododd hefyd y Dangosyddion Perfformiad a restrwyd yn yr adroddiad, gan gydnabod bod pwysau'r gyllideb, gofynion ar wasanaethau ac ymestyn targedau er mwyn cyflawni gwelliannau pellach oll yn cyfrannu at y darlun mawr.

Cafwyd sylw gan y Dirprwy Arweinydd ar y gostyngiad cadarnhaol yn niferoedd staff y Cyngor a oedd yn absennol drwy salwch, gan ychwanegu bod gwaith pellach yn y maes yma'n cael ei gynnal.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNODD** yr Aelodau:

Refeniw

1. Nodi a chytuno ar sefyllfa refeniw Cronfa Gyffredinol y Cyngor fel y mae ar 31 Mawrth 2018 (Adran 2 o'r Crynodeb Gweithredol).

Cyfalaf

2. Nodi sefyllfa alldro cyfalaf y Cyngor fel y mae ar 31 Mawrth 2018 (Adrannau 3a-f o'r Crynodeb Gweithredol).
3. Nodi manylion y Dangosyddion Materion Darbodusrwydd Cylch Rheoli'r Trysorlys fel y mae ar 31 Mawrth 2018 (Adran 3g o'r Crynodeb Gweithredol).

Blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol

4. Nodi sefyllfa ddiwedd y flwyddyn ariannol ynghylch y cynnydd mewn perthynas â'r Cynllun Corfforaethol cytûn (Adrannau 5a–d o'r Crynodeb Gweithredol), Mesurau Cenedlaethol Eraill (Adran 5e o'r Crynodeb Gweithredol) a chymharu targedau 2017/18 â'r flwyddyn flaenorol a gwybodaeth am gyfartaledd cyflawniad Cymru gyfan (Adran 5f o'r Crynodeb Gweithredol).

20 CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG

Rhoddodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen ddiweddariad i Aelodau am y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2018/19 tan 2021/22, yn seiliedig ar y tybiaethau modelu presennol cyn pennu'r cynigion manwl ar gyfer strategaeth gyllideb 2019/20 yn ystod misoedd yr hydref.

Er bod buddsoddiad drwy ddefnyddio cyllid untro wedi bod yn gadarnhaol iawn,

esboniodd Cyfarwyddwr y Gyfadran fodd bynnag, fod y Cyngor yn cydnabod bod rhaid iddo fynd i'r afael â diffygion cyllideb sylfaenol a gwneud penderfyniadau anodd i gydbwysu'i gyllideb refeniw barhaus yn y tymor canolig. Ychwanegodd fod yr adroddiad a gyflwynwyd gerbron yr Aelodau yn rhoi darlun dros dro o faint yr her y mae'r Cyngor yn ei hwynebu, a'r camau gweithredu a'r trefniadau sy'n cael eu rhoi ar waith i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion yn ystod y cyfnod cynllunio. Cafodd yr Aelodau eu cyfeirio at adran 5 yr adroddiad a oedd yn nodi'r prif dybiaethau mewn perthynas ag incwm a gwariant. Parhaodd Cyfarwyddwr y Gyfadran drwy esbonio i'r Aelodau fod modd i'r holl ragdybiaethau modelu yn yr adroddiad newid a bydden nhw'n cael eu hadolygu fel rhan o'r gwaith ar y strategaeth gyllideb fanwl yn yr hydref. Mae'r 'achos sylfaenol' yn cynnwys gostyngiad yng nghyllid Llywodraeth Cymru o 1% y flwyddyn dros y cyfnod o dair blynedd. Mae amrywiaeth y lefel bosibl o Setliad Dros Dro gan Lywodraeth Cymru yn cael effaith sylweddol ar y diffyg yn y gyllideb, sef £3.6M fesul 1% fel y dangosir yn ffigur 1 yr adroddiad.

Cafodd yr Aelodau eu cyfeirio at Atodiad 1 yr adroddiad sy'n cynnwys manylion pellach mewn perthynas â'r trefniadau cynllunio ariannol tymor canolig.

Dywedodd yr Arweinydd y byddai'r cynllun yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Cyngor i sicrhau fod yr holl Aelodau yn effro i sefyllfa cyllideb y Cyngor, gan ychwanegu bod pennu cyllideb y Cyngor yn gyfrifoldeb i'r holl Aelodau etholedig. Parhaodd yr Arweinydd drwy roi sylwadau ar y pwysau y mae gwasanaethau'n eu hwynebu mewn perthynas â chynyddu niferoedd y plant sy'n derbyn gofal a gofynion ar y gwasanaeth i oedolion. Rhoddodd sylw hefyd ar y pwysau o ran chwyddiant. Ychwanegodd nad oedd modd parhau ariannu gwasanaethau drwy arbedion corfforaethol.

Roedd y Dirprwy Arweinydd wedi atgoffa'r holl Aelodau bod modd iddyn nhw gynnig cyllideb amgen i helpu i bontio'r diffyg yn y gyllideb yn y dyfodol. Hefyd, cafwyd sylwadau cadarnhaol ganddo ar y gwasanaethau, y ddarpariaeth a'r buddsoddiad sydd ar gael ar hyd a lled y Fwrdeistref Sirol yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni.

Trafododd yr Aelodau'r setliad posibl o ran y maes lechyd a'r cyllid y byddai'r maes lechyd yn ei dderbyn o'i herwydd. Dywedodd yr Aelodau fod angen rhagor o fuddsoddiad ym meysydd Gofal lechyd a Chymdeithasol ac nid yn unig lechyd yn bennaf.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNODD** yr Aelodau:

1. Nodi'r sefyllfa bresennol mewn perthynas â 'Chynllun Ariannol Tymor Canolig 2018/19 i 2021/22' a chael eu diweddarau ymhellach yn yr hydref fel rhan o'r broses gosod cyllideb flynyddol;
2. Cyfathrebu ac ymgysylltu'n ehangach â'r Cyngor llawn a'r Pwyllgor Craffu – Cyllid a Chyflawniad mewn perthynas â'r cynllun.

21 **DIWEDDARIAD YNGLŶN AG ADOLYGIAD DIOGELU DATA CYFFREDINOL**

Cyfeiriodd y Pennaeth Cyflawni Archwilio Mewnol a Chaffael yr Aelodau at ei adroddiad a roddodd ddiweddariad ar y gwaith a gynhaliwyd mewn ymateb i'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR). Mae'r adroddiad hefyd yn amlinellu gwaith pellach y mae carfan y prosiect GDPR yn bwriadu'i gyflawni.

Cafodd yr Aelodau wybod am y 3 prif ffrwd gwaith sy'n cael eu cynnal mewn perthynas â Datblygu Cofrestrau Diogelu Data, sef cofnodi 'sail gyfreithlon' ar gyfer prosesu, datblygu a chyhoeddi Hysbysiadau Preifatrwydd a sefydlu gofynion GDPR yn nhrefniadau cytundebol cyfredol, ac o fewn arferion caffael.

Roedd yr Arweinydd wedi diolch i'r swyddogion dan sylw am eu gwaith hyd yn hyn i sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â'r rheoliadau newydd a **PHENDERFYNWYD:**

1. Bod gofynion sylfaenol GDPR wedi'u cyflawni mewn ffordd gadarn a phragmatig, a hynny yn sgil ystyried yr adroddiad.
2. Cymeradwyo'r meysydd hynny a nodwyd fel y ffrydiau gwaith nesaf y mae angen gweithredu arnyn nhw.
3. Cynnal unrhyw ffrydiau gwaith ychwanegol sydd eu hangen er mwyn cryfhau ymhellach y trefniadau sydd ar waith.

22

ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFARWYDDWR GWASANAETHAU CYMDEITHASOL (DRAFFT)

Yn unol â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 cyflwynodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant ei 'Adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol' drafft gerbron yr Aelodau cyn i'r cynnwys gael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

Rhoddodd Cyfarwyddwr y Gyfadran drosolwg byr o'r adroddiad i'r Aelodau. Mae'r adroddiad yn nodi cyflawniad Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor y llynedd, gan amlygu'r cyfeiriad a'r blaenoriaethau a osodwyd ar gyfer y flwyddyn i ddod. Cafodd yr Aelodau wybod fod yr adroddiad hefyd wedi'i gyflwyno i Bwyllgorau Craffu Iechyd a Lles a Phlant a Phobl Ifanc i'w hystyried yn eu cyfarfodydd diweddar, heb unrhyw newidiadau sylweddol i'r adroddiad ganddyn nhw.

Roedd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymuned i Oedolion a'r Gymraeg wedi diolch i Gyfarwyddwr y Gyfadran am ei adroddiad a siaradodd am y gwaith parhaus sy'n cael ei gyflawni gan y gwasanaeth er lles oedolion a phlant. Serch hynny, ychwanegodd fod cyfleoedd ar gael bob amser i wella'r cyflawniad. Cyfeiriodd Aelod y Cabinet at y gwaith cadarnhaol sy'n cael ei gynnal gyda Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Cwm Taf.

Rhannodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Plant a Phobl Ifanc ei phryderon ynglŷn â gallu plant i gael gafael ar yr hyn sy'n cael ei ddarparu iddyn nhw. Cytunodd Cyfarwyddwr y Garfan ag Aelod y Cabinet a siaradodd am yr angen i fuddsoddi ymhellach ym mhobl ifanc y Fwrdeistref Sirol i geisio atal problemau rhag gwaethgu yn hwyrach yn eu bywydau. Siaradodd yr Aelodau am drafodaethau diweddar gyda Gweinidogion Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chefnogi cronfa drawsnewid ar gyfer Plant, sy'n debyg i'r gronfa drawsnewid ar gyfer Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol.

Yn dilyn trafodaethau pellach, nododd yr Arweinydd ei ddiolch eto i staff y gwasanaeth am eu hymrwymiad wrth ddarparu gwasanaethau yn ystod y tywydd garw yn gynharach yn y flwyddyn, lle'r oedd Aelodau'r staff wedi mynd uwchlaw a'r tu draw er budd trigolion y Cyngor.

PENDERFYNWYD:

1. Nodi adroddiad blynyddol (drafft) Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol Rhondda Cynon Taf (fel y'i atodir yn Atodlen 1).

23 ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNHALWYR CWM TAF 2017/18

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant Adroddiad Blynyddol 2017/18 mewn perthynas â Chynhalwyr gerbron yr Aelodau iddyn nhw ei gymeradwyo, cyn iddo gael ei osod gerbron Lywodraeth Cymru.

Rhoddodd Cyfarwyddwr y Garfan drosolwg byr o'r adroddiad, gan ychwanegu bod gweithredu'r Strategaeth Cynhalwyr wedi ategu blaenoriaethau'r Cyngor i hyrwyddo annibyniaeth a bywyd cadarnhaol i bawb, gan gynnwys Cynhalwyr o bob oed.

Siaradodd Aelod y Cabinet ar faterion Plant a Phobl Ifanc yn gadarnhaol am yr adroddiad a'r gwelliannau a nodir ynddo mewn perthynas â chefnogi a chydabod Cynhalwyr, a'r wybodaeth amdanyn nhw sydd ar gael. Holodd a fyddai unrhyw fwriad i gael un pwynt mynediad canolog yn y dyfodol yn cael ei ystyried. Ymatebodd Cyfarwyddwr y Garfan drwy ddweud y byddai angen cynnal gwaith pellach er mwyn cyrraedd y nod yma.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNWYD:**

1. Nodi bod yr Adroddiad Blynyddol hefyd yn cael ei gyflwyno gerbron Cabinet Cyngor Merthyr Tudful a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf.
2. Nodi bod yr Adroddiad Blynyddol i fod i'w gyflwyno gerbron Llywodraeth Cymru ddiwedd Mehefin 2018. Serch hynny, ac yn unol â'r arfer flaenorol sydd wedi bod yn dderbyniol o safbwynt Llywodraeth Cymru, ac oherwydd nad yw amserlenni cyfarfodydd Cabinet y Cynghorau (RhCT a Merthyr Tudful) na Bwrdd y Bwrdd Iechyd yn cyd-ddigwydd, fod adroddiad drafft yn cael ei gyflwyno, a chaiff fersiwn terfynol ei anfon i Lywodraeth Cymru yn dilyn sêl bendith y tri phartner.
3. Cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol ynghlwm yn Atodiad 1 yr adroddiad i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru.
4. Nodi bod y gwaith mewn perthynas â chynhalwyr yn mynd yn ei flaen yn rhan o'r Cynllun Rhanbarthol ar gyfer gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn arbennig trwy weithredu Strategaeth Cynhalwyr/Gofalwyr Cwm Taf 2016-19 a gafodd ei chymeradwyo gan bartneriaid ym mis Gorffennaf 2016.

24 Trafod cadarnhau'r cynnig isod yn benderfyniad

PENDERFYNWYD: "Bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf."

25 DATBLYGIAD LLETY TAI Â CHYMORTH

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant adroddiad gerbron yr Aelodau a oedd yn cynnwys gwybodaeth eithriedig, sy'n ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i addasu cyn cynllun Llety Gwarchod, Crown Avenue ar gyfer pobl hŷn yn Ynys-wen, Treorci, sy'n eiddo i Trivallis i lety byw â chymorth newydd i bobl ag anabledd dysgu.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a thrafod ei gynnwys, **PENDERFYNWYD:**

1. Cyfrannu cyllid untro (cyfalaf) o £758,696 i drosi Crown Avenue, cynllun llety gwarchod blaenorol ar gyfer pobl hŷn yn Ynyswen, Treorci, sy'n eiddo i Trivallis, i lety byw â chymorth newydd i bobl ag anabledd dysgu.
2. Cynnwys y cynllun yn y Rhaglen Gyfalaf 3 blynedd o hyd.
3. Ystyried yr holl opsiynau ar gyfer darparu gofal a chymorth parhaus yn y cynllun Tai â Chymorth newydd.
4. Awdurdodi Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant i gymryd yr holl gamau angenrheidiol i weithredu'r penderfyniadau uchod.

26 TREFNIADAU GALW MEWN

Gan fod Adroddiad Cyflawniad y Cyngor ac adroddiad y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (Eitemau 5 a 7) am gael eu cyflwyno gerbron y Cyngor ar 25 Gorffennaf, ac adroddiad Cyflawniad ac Adnoddau Chwarter 4 (eitem 6 ar yr agenda) am gael ei adrodd i'r Pwyllgor Craffu Cyllid a Pherfformiad ar 23 Gorffennaf, rhoddodd Ysgrifennydd y Cabinet wybod i'r Aelodau na fyddai'r eitemau hyn yn ddarostyngedig i weithdrefn Galw Mewn y Cyngor, a byddai hyn yn cael ei adlewyrchu ar hysbysiad penderfynu pob un o'r eitemau.

27 Materion Brys

Daeth y cyfarfod i ben am 3.30 pm

**Cllr A Morgan
Cadeirydd.**